# Gweithio mewn partneriaeth: Rheoli gweithgareddau antur

Mae oddeutu 1400 hectar o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn Sir y Rhaeadrau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae hon yn ardal boblogaidd ar gyfer gweithgareddau antur, gan gynnwys canŵio dŵr gwyn, cerdded ceunant a nofio gwyllt. Oherwydd natur anghysbell yr ardal, rhaid wrth sgiliau achub ac ymgilio o fynydd os digwydd unrhyw ddamwain ddifrifol.



Mae gan yr ardal hanes hir o'i defnyddio gan bobl leol ar gyfer gweithgareddau antur. Fodd bynnag, o 1995 ymlaen, bu cynnydd sylweddol yn nifer y darparwyr gweithgareddau awyr agored sy'n defnyddio'r ardal heb ganiatâd ac mae hyn wedi achosi problemau, fel meysydd parcio ceir yn orlawn, ymddygiad anghyfrifol gan rai ymwelwyr, erydiad llwybr, difrod i blanhigion yn y ceunant a chyflwyno rhywogaethau ymledol. Erbyn 2010, roedd yn amlwg bod angen dull gwahanol o reoli gweithgareddau antur.

Yr ateb oedd ymdrech ar y cyd, gan weithio gyda darparwyr gweithgareddau awyr agored ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd hyn yn cynnwys ffurfio Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (*SWOAPG*) a thrafod cytundeb Concordat. Mae hyn yn cynnwys Cod Ymddygiad, rheolau mynediad, gofynion hyfforddi, polisi gorfodi a siarter amgylcheddol. Rhaid i unrhyw sefydliad masnachol sy'n dymuno gweithredu yn yr ardal fod yn aelod o *SWOAPG* a rhaid cadw at y Concordat.

Wrth sôn am y Concordat, dywedodd Steve Rayner, Cydlynydd *SWOAPG*:

*"Mae'n darparu mecanwaith syml i ddarparwyr awyr agored allu cael mynediad i geunentydd Sychryd a Mellte ac mae'n cwrdd â nodau CNC ar gyfer diogelu'r amgylchedd bregus hwn. Mae'n galluogi cleientiaid o bob oed i fwynhau gweithgareddau awyr agored yn y cornel arbennig hwn o Dde Cymru. "*

Heddiw mae'r Concordat yn cael ei ddefnyddio gan bron i 200 o sefydliadau i gael mynediad i Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yng Ngwlad y Rhaeadrau ac mae'r model o weithio gyda *SWOAPG* wedi ei atgynhyrchu gan Dŵr Cymru, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Sir Benfro.

Ers cyflwyno'r Concordat, mae llawer o'r darparwyr gweithgarwch wedi gweithio'n wirfoddol gyda'r tîm gwarchod i atgyweirio llwybrau a mapio rhywogaethau ymledol. Mae arwyddion wedi gwella hefyd er mwyn nodi'n glir unrhyw ardaloedd peryglus fel bod ymwelwyr yn gallu barnu'n well y risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgareddau.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: